Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyflwyno Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)** |
| **DYDDIAD** | **1 Mai 2015** |
| **GAN** | **Ken Skates AC, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth** |

Heddiw cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae amgylchedd hanesyddol cyfoethog yn ein gwlad sy'n cwmpasu safleoedd archaeolegol, henebion ac adeiladau hanesyddol, yn ogystal â'r tirlun a'r trefi o'u cwmpas. Mae wedi llywio ein hunaniaeth genedlaethol ac mae'n rhan o'r hyn sy'n gwneud ein hardaloedd yn unigryw ac sy'n ein gwneud yn falch o'n cymunedau. Mae hefyd yn dod â chryn fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i bobl Cymru. Mae'n hollbwysig, felly, bod gyda ni systemau clir, effeithiol a hyblyg o warchod a chynnal yr amgylchedd hanesyddol.

Nod Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yw gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru fel y gallwn ni heddiw a chenedlaethau'r dyfodol barhau i fwynhau ei fanteision, ei werthfawrogi a dysgu oddi wrtho.

Er bod y strwythurau sydd gyda ni eisoes i ddiogelu amgylchedd hanesyddol Cymru yn gadarn yn y bôn, yn sgil yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r ymgysylltu eang â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Bil, daeth nifer o feysydd i'r amlwg lle mae angen newid y ddeddfwriaeth er mwyn gwarchod a rheoli ein hasedau yn well. Bydd y Bil yn gwneud gwelliannau pwysig i'r ddeddfwriaeth bresennol ar henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig ac yn cyflwyno rhai darpariaethau newydd ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn fwy cyffredinol.

O ran henebion cofrestredig, bydd y Bil yn sicrhau bod pob safle archaeolegol sydd o bwys cenedlaethol yng Nghymru yn cael ei warchod, ac yn creu mesurau newydd a fydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gymryd camau effeithiol ar unwaith i atal difrod i henebion cofrestredig. Mae yna gynigion eraill hefyd i'w gwneud yn haws cymryd camau yn erbyn y rheini sydd wedi difrodi neu ddinistrio henebion.

O ran adeiladau rhestredig, bydd y Bil yn galluogi awdurdodau i weithredu'n gyflym os yw adeilad o dan fygythiad yn sgil gwaith nas awdurdodwyd ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt wrth ddelio ag adeiladau hanesyddol sy'n cael eu hesgeuluso.

Bydd perchnogion neu ddatblygwyr sy'n ystyried defnyddio adeiladau hanesyddol sydd heb eu rhestru mewn ffyrdd newydd cynaliadwy yn elwa ar gynigion y Bil i lacio'r amodau ar gyfer ceisiadau am dystysgrifau imiwnedd rhag rhestru.

Mae rhai o ddarpariaethau'r Bil yn berthnasol i henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig. Bydd sefydlu cytundebau partneriaeth dreftadaeth yng Nghymru yn caniatáu i berchnogion asedau hanesyddol ddod i drefniant rheoli gwirfoddol gydag awdurdodau sy'n cydsynio, a fydd yn ysgafnhau'r beichiau gweinyddol i bawb ac yn hybu dull mwy cyson a chydlynol o reoli'r adeiladau neu'r henebion.

Caiff y strwythurau presennol ar gyfer dynodi asedau hanesyddol sydd o bwys cenedlaethol eu gwneud yn fwy agored a thryloyw yn sgil cyflwyno'r arfer o ymgynghori'n ffurfiol â pherchnogion a chreu mecanweithiau i adolygu penderfyniadau.

Caiff y broses o reoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy ei gwella drwy roi sail fwy sefydlog i gofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru, sy'n rhoi gwybodaeth fanwl a chyngor ar yr amgylchedd hanesyddol i awdurdodau cynllunio lleol a'r cyhoedd.

Bydd y Bil yn creu cofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol Cymru a fydd yn helpu gyda gwaith cadwraeth ar safleoedd cofrestredig ymhlith perchnogion, awdurdodau cynllunio lleol, cyrff statudol a phawb arall perthnasol.

Yn olaf, bydd y Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer panel annibynnol i roi cyngor ar bolisi a strategaeth yr amgylchedd hanesyddol ar lefel genedlaethol yng Nghymru.

Mae'r Bil hwn yn gam pwysig ymlaen i Gymru gan mai dyma'r ddeddfwriaeth gyntaf erioed i gael ei drafftio'n benodol ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru. Fodd bynnag, mae yna lawer o welliannau pwysig i'w gwneud i'r gwaith o warchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol na ellir eu cyflawni drwy ddeddfwriaeth yn unig. Yn ystod y gwaith ymgysylltu ac ymgynghori a wnaed ymlaen llaw, roedd yna gonsensws cyffredinol y byddai'n hanfodol hefyd diwygio'r polisi, y cyngor a'r canllawiau mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol.

Mae Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) felly wedi'i ddatblygu i fod yn sylfaen i gyfres o bolisi, cyngor a chanllawiau deddfwriaethol a fydd yn creu'r systemau sydd eu hangen ar Gymru er mwyn gallu rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ymateb i heriau'r unfed ganrif ar hugain. Mae yna raglen o gyhoeddiadau i ategu'r ddeddfwriaeth, a heddiw rwyf wedi cyhoeddi'r haen gyntaf o'r dogfennau drafft hynny ar wefan Cadw: (http://cadw.llyw.cymru/historicenvironment/policy/historicenvironmentbill/guidancedocuments/?lang=cy):

- pennod 6 ddiwygiedig, 'Yr Amgylchedd Hanesyddol', yn *Polisi Cynllunio Cymru*;
- *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* (cyngor cynllunio newydd);
- *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*;
- *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru*;
- *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol sydd o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru*;

- *Rheoli Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru* (canllawiau statudol o dan ddarpariaethau'r Bil).

Drwy ddarparu'r dogfennau hyn nawr ar ffurf ddrafft, rwy'n gobeithio helpu Aelodau'r Cynulliad i weld y Bil fel elfen ganolog mewn pecyn integredig o fesurau i wella'r ffordd y caiff amgylchedd hanesyddol Cymru ei reoli'n gynaliadwy. Caiff ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ei gynnal ar y dogfennau hyn unwaith y cytunir yn derfynol ar ddarpariaethau'r Bil.

Drwy Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a mesurau cysylltiedig, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu amgylchedd hanesyddol unigryw Cymru ar gyfer y cenedlaethau i ddod a hyrwyddo'r arfer o'i reoli'n gynaliadwy fel y gall barhau i gyfrannu i les ein dinasyddion.